

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS FAWRTH 9FED O ORFFENNAF 2019 YN Y PAFILIWN, RHEWL AM 7.45 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Siân Davies (Cadeirydd), Ian Hession, Wyn Wilkinson, Clwyd Thomas, Dewi Roberts, Brynle Lloyd, Mike Denman, Cynghorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Arwel Jones a Iona Jones.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 14rg o Fai 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd cadarnhad mi fydd Adran Gwasanaethau Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych mi fydd yr Adran yn rhoi adroddiad wythnosol i'r Clerc o'r sylwadau'r Swyddogion i'r ymholiadau'r Cyngor Cymuned.

B. Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r cais cynllunio am godi annedd newydd, adeiladu porth ceir ar wahân a gwaith cysylltiedig yn "The Chalet" yn Rhewl.

5. CYN BOCS FFFON GOCH YN LLANYNYS.

A. Mae'r cyn bocs ffon wedi cael ei ail pheintio gyda diolch i'r Cynghorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, am drefnu'r gwaith.

B. Mae'r Diffibrilydd ar offer cysylltiedig i'r cyn bocs ffon yn Llanynys wedi cael eu gosod a chwblhau erbyn hyn gyda diolch i Mr Tomos Hughes, Swyddog Diffibrilydd Gwasanaeth Ambiwylans Cymru am drefnu'r holl waith.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc £12,627.00.

B. Penderfynwyd talu'r canlynol i'r costau'r cyn bocs ffon yn Llanynys:-

1. Paints for trade (Paent) £35.98.

2. Merfyn Parry (Peintiwr) £150.00.

3. Zoll Medical UK (Diffibrilydd) £983.88.

4. Pawle & Co. Ltd. (Cabinet) £424.80.

5. Rhys Jones (Trydanwr) £163.50.

6. SADS UK (Rhodd am waith gwirfoddol Tomos Hughes) £150.00.

7. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A: Codi estyniad cefn unllaw'r yn Wyrain, Llanynys.

B. Codi estyniad i adeilad ciwbicel presennol ym Machymbyd Fawr, Llanrhaeadr.

C. Addasu garej ddomestig i ystafell arddio gydag estyniad cyswllt ar gyfer defnydd achlysurol gyda'r annedd bresennol (cynllun diwygiedig) yn Glanynys Bach, Llanynys.

8. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn ar Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2018-2033: Ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffafir Drafft a estynni'r hyd at 27ain o Fedi 2019.
- B. Derbyniwyd "Adroddiad Argymhellion Terfynol Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ddinbych y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru". Nid fydd yna unrhyw newid i'r "Ward Llandyrnog" sydd yn cynnwys Cymunedau Aberchwiler, Llandyrnog a Llanynys.
- C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd adroddiad ynglŷn ar gyflwr y ffordd o Rhewl tuag at Bodynys a chytunodd y Cynghorydd Merfyn Parry i'w thrafod gyda'r Cyngor Sir Ddinbych.

10. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Rhodddwyd caniatâd i'r Pwyllgor Y Pafiliwn i ail leoli'r "Fainc Goffa" ar y gyffordd gyferbyn a'r Drovers yn Rhewl.

11. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Fawrth 10fed o Fedi 2019 yn Y Pafiliwn, Rhewl am 7.45 p.m.